

At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor
Craffu Perfformiad

Dyddiad: 12 Gorffennaf 2018

Rhif Union: 01824 712554

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD, DYDD IAU, 19 GORFFENNAF 2018** am **10.00** am yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**CYNHELIR SESIWN BRIFFIO AR GYFER YR AELODAU ETHOLEDIG AM 9.15 A.M.
YN UNION O FLAEN Y CYFARFOD**

AGENDA

RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd fel un i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion bryd yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF (Tudalennau 5 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd ar 7 Mehefin 2018 (copi ynghlwm).

10.05 a.m. – 10.15 a.m.

5 DATBLYGU STRATEGAETH CYNNAL A CHADW PRIFFYRDD
(Tudalennau 15 - 34)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Ased a Risg Priffyrdd (copi ynghlwm) yn dilyn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ar 7 Rhagfyr 2017 a thrafod materion cyllid cyfalaf rhwydwaith priffyrdd gyda chynrychiolwr o Lywodraeth Cymru.

10.15 a.m. – 11.00 a.m.

6 ADRODDIAD PERFFORMIAD Y CYNLLUN CORFFORAETHOL
CHWARTER 4 - 2017/18 (Tudalennau 35 - 88)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol (copi ynghlwm) sy'n monitro cynnydd y Cyngor o ran cyflawni Cynllun Corfforaethol 2017-22.

11.00 a.m. – 11.30 a.m.

~~~~~ **EGWYL (11.30 a.m. – 11.40 a.m.)** ~~~~~

**7 ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU**  
**CYMDEITHASOL 2017-18** (Tudalennau 89 - 142)

Ystyried Adroddiad gan y Prif Reolwr: Gwasanaethau Cynnal (copi ynghlwm) i alluogi'r Aelodau i graffu ar yr adroddiad blynyddol drafft cyn iddo gael ei gyflwyno i Arolygiaeth Gofal Cymru.

**11.40 a.m. – 12.15 p.m.**

**8 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO** (Tudalennau 143 - 162)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor a rhoi'r diweddaraf i'r aelodau ar faterion perthnasol.

**12.15 p.m. – 12.25 p.m.**

**9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU**

Cael diweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar wahanol Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor.

**12.25 p.m. – 12.30 p.m.**

**RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL**

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod tra bydd yr eitemau busnes canlynol yn cael eu hystyried oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig (fel y diffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf) yn cael ei datgelu.

**10 ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYNLLUN BUSNES GOFAL IECHYD  
CEFNDY 2017/18** (Tudalennau 163 - 184)

Ystyried adroddiad cyfrinachol ar y cyd gan Reolwr Gwasanaethau Masnachol a Rheolwr Cynhyrchu (copi ynghlwm) o berfformiad Gofal Iechyd Cefndy yn 2017 – 18 a Chynllun Busnes 2018-22.

**12.30 p.m – 1.00 p.m.**

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Y Cynghorydd Huw Jones (Cadeirydd)

Ellie Chard

Ann Davies

Martyn Holland

Geraint Lloyd-Williams

Y Cynghorydd Hugh Carson Irving (Is-  
Gadeirydd)

Bob Murray

Arwel Roberts

David Williams

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth

Y Wasg a'r Llyfrgelloedd

Cynghorau Tref a Chymuned